

# Ein safonau gwasanaeth

canolfan**byd**gwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Mae'r Ganolfan Byd Gwaith, Y Gwasanaeth Pensiwn a'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr i gyd yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae pob rhan yn cyflenwi gwasanaethau i wahanol grwpiau o bobl, ond mae'r Adran, yn ei gyfanrwydd, yn ymrwymedig i fodloni set unigol o safonau gwasanaethau cwsmeriaid:

- Triniaeth gywir
- Canlyniad cywir
- Prydlondeb
- Mynediad rhwydd

Mae'r daflen hon yn esbonio mwy am yr hyn a olygir gan y safonau i chi fel cwsmer y Ganolfan Byd Gwaith.

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	4
<b>Ein cyfrifoldebau i chi</b> .....	5
Triniaeth gywir .....	5
Canlyniad cywir .....	6
Prydlondeb .....	7
Mynediad rhwydd.....	8
<b>Yr hyn rydym yn disgwyl gennych</b> .....	10
Rhoi gwybod i ni pan fydd rhwybeth yn newid .....	10
<b>Dywedwch eich barn wrthym</b> .....	11
Pan aiff pethau'n iawn .....	11
Pan aiff pethau o'i le.....	12
<b>Cwyno</b> .....	13
Ffynonellau annibynnol o gymorth .....	13
Sut i wneud cwyn ffurfiol .....	14
Archwilydd Achosion Annibynnol.....	16
Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd .....	16
Taliadau arbennig .....	17

---

## Sut i wneud cais

Ffôn:  
0800 012 1888

Ffôn testun:  
0800 023 4888

Dydd Llun i ddydd  
Gwener 8am i 6pm

---

---

## I ddod o hyd i swydd

[www.direct.gov.uk/](http://www.direct.gov.uk/)  
[chwiliadgwaith](#)

Ffôn:  
0845 606 7890

Ffôn testun:  
0845 604 4022

Dydd Llun i ddydd  
Gwener 8am i 6pm, a  
dydd Sadwrn 9am i 1pm

---

## Cyflwyniad

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yma i roi 'gwaith i'r rheiny sy'n gallu gweithio a rhoi cymorth i'r rheiny na allant weithio'.

Rydym bob amser yn newid i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid. Er bod cyngor wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn bwysig, caiff llawer o'n gwasanaethau eu darparu dros y ffôn drwy ein canolfannau cyswllt. Os oes gennych nam ar eich clyw neu eich lleferydd, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun. Mae ein gwasanaethau rhyngrwyd hefyd yn ehangu, fel y gallwch eu defnyddio'n gyflym ac yn hawdd.

Caiff Canolfannau Gwaith eu defnyddio fwyfwy ar gyfer apwyntiadau sydd wedi'u trefnu yn unig. Bydd hyn yn golygu y gallwn roi mwy o'n hamser i bobl sydd angen help ychwanegol.

Bydd rhywfaint o'r cymorth a gewch yn cael ei gyflenwi gan sefydliadau eraill ar ran y Ganolfan Byd Gwaith (fel darparwyr hyfforddiant). Bydd ganddynt brosesau cwyno ei hun ond mae'r egwyddorion yn y daflen hon yn parhau i fod yn briodol, a gallwch siarad â ni os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth a gawsoch gan unrhyw ddarparwr ar ein rhan.

Os byddwch yn cael anhawster defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau, neu os bydd gennych ymholiad brys, gallwn drefnu apwyntiad i chi siarad â rhywun cyn gynted â phosibl.

Gallwch gael ein manylion cyswllt yn [www.direct.gov.uk/cy](http://www.direct.gov.uk/cy) neu edrych yn eich llyfr ffôn lleol.

## Ein cyfrifoldebau i chi

Rydym yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi. Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rydym am sicrhau eich bod yn fodlon ar y cyngor rydym yn ei roi i chi a'r ffordd y cewch eich trin.

### Triniaeth gywir

Ein nod yw trin cwsmeriaid yn yr un ffordd. Byddwn yn:

- gyfeillgar, yn deg ac yn barod i'ch helpu
- eich trin â pharch
- ymddwyn yn broffesiynol
- sicrhau bod ein swyddfeydd mor ddiogel â phosibl, ar gyfer ein cwsmeriaid a'n staff, a
- parchu eich preifatrwydd.

### Pryd fyddwn yn cysylltu â chi

Gallwch ddewis sut y byddwn yn cysylltu â chi – dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, er mwyn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch yn ddiogel ni fyddwn yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch mewn atebion a anfonwn drwy e-bost.

### Pan fyddwn ni'n ysgrifennu atoch chi

Ein nod yw bod pob llythyr a anfonir gennym:

- wedi'i deipio, yn glir ac yn hawdd i'w ddarllen
- yn dweud wrthyhych os oes unrhyw beth y mae angen i chi ei wneud, ac
- yn rhoi manylion cyswllt i chi, fel enw person a rhif ffôn uniongyrchol.

Gallwn ysgrifennu atoch yn Gymraeg, Saesneg neu eich dewis iaith. Gallwn gysylltu â chi yn y ffordd sydd orau gennych, os byddwch yn dweud wrthym beth ydyw.

### Ymweld â'n swyddfeydd

Pan fyddwch yn ymweld â'n swyddfeydd, bydd ein staff:

- yn gwisgo bathodyn enw ac yn eich cyfarch mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol
- bob amser yn ceisio eich gweld ar amser os bydd gennych apwyntiad
- yn trefnu apwyntiad arall cyn gynted â phosibl os bydd angen un arnoch, ac
- yn trefnu ystafell gyfweld breifat os bydd angen preifatrwydd arnoch.

Os byddwch yn ymweld â'n swyddfeydd heb apwyntiad, byddwn yn ceisio eich helpu ar unwaith – yn bennaf drwy ein gwasanathau dros y ffôn. Os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn trefnu apwyntiad ar eich cyfer.

### Canlyniad cywir

Ein nod yw rhoi gwybodaeth a chyngor cywir a pherthnasol er mwyn eich helpu i:

- ddod o hyd i swydd addas
- cael pa fudd-daliadau rydych yn gymwys i'w cael
- deall amodau cael eich budd-dal fel mynychu cyfweliadau neu chwilio am waith
- deall ein penderfyniadau

- penderfynu ar beth i'w wneud, a
- cael mynediad at gymorth arall y gallai fod ei angen arnoch fel cymorth i ddatblygu sgiliau newydd neu helpu gyda gofal plant neu gostau teithio.

### **Prydlondeb**

Rydym am sicrhau y byddwn yn cyflenwi ein gwasanaethau yn brydlon. Mae hyn yn cynnwys:

- prosesu eich cais am fudd-dal cyn gynted â phosibl
- newid unrhyw fanylion pan fyddwch yn ein hysbysu, a rhoi gwybod i chi os bydd y newid yn effeithio ar eich budd-dal
- bod yn brydlon ar gyfer apwyntiadau, a
- sicrhau ein bod ar gael i gymryd galwadau ffôn ar amseroedd rydym wedi cytuno arnynt.

### **Pan fyddwch chi'n ffonio ni**

Ein nod yw ateb galwadau o fewn **30 eiliad**. Bydd ein staff yn rhoi eu henw ac enw'r swyddfa neu'r adran rydych wedi cysylltu â hi.

Byddwn yn eich ffonio'n ôl os byddwch yn pryderu am gost yr alwad, neu os na allwn ateb eich ymholiad ar unwaith. Os na allwn eich helpu, byddwn yn ceisio'ch cyfeirio at y lle cywir i gael help.

## Pan fyddwch chi'n ysgrifennu atom

Pan fyddwch yn anfon llythyr, ein nod yw ateb yn llawn:

- o fewn **10 niwrnod gwaith** o dderbyn eich llythyr, neu
- o fewn **15 niwrnod gwaith** i Aelodau Seneddol (AS) sy'n ysgrifennu atom ar eich rhan.

Os na allwn eich ateb o fewn yr amserau hyn, byddwn yn esbonio ac yn dweud wrthyfch:

- pwy sy'n delio â'ch llythyr
- pryd y gallwch ddisgwyl ateb llawn, a'r
- hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn.

## Mynediad rhwydd

Rydyn am sicrhau y gallwch gael mynediad rhwydd at ein gwasanaethau. Byddwn yn:

- rhoi'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch, gan ystyried unrhyw gyflwr iechyd, anabledd neu anawsterau iaith
- darparu gwahanol ffyrdd o gael ein gwasanaethau, wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar y rhyngwyd, a
- ceisio eich cyfeirio at y person neu'r sefydliad cywir os na allwn helpu.

## Os oes gennych anabledd

Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae gan ein swyddfeydd:

- ddolenni clywed a ffonau testun ar gyfer pobl â nam ar eu lleferydd neu eu clyw, a
- mynediad hawdd i bobl sydd â chyflwr iechyd neu sy'n ei chael hi'n anodd cerdded.

Gallwn hefyd drefnu dehonglydd laith Arwyddion Prydain, neu gyfathrebu â chi yn y ffordd sydd orau gennych. Os byddwch yn gofyn am ddehonglydd, byddwn yn anelu at wneud y trefniadau o fewn **un diwrnod gwaith**. Byddwn yn trefnu apwyntiad i chi cyn gynted â phosibl ar ôl hyn.

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar y ffordd rydych yn defnyddio ein gwasanaeth, rhowch wybod i ni fel y gallwn roi'r cymorth sydd ei angen arnoch. Gallai hyn gynnwys help i gwblhau ffurflenni, neu ymweld â chi yn eich cartref.

### Os nad ydych yn siarad Saesneg neu Gymraeg

Os oes gennych apwyntiad yn un o'n swyddfeydd neu am ein ffonio, gallwch:

- ddefnyddio eich dehonglydd eich hun, neu
- ofyn am wasanaeth dehonglydd.

Ein nod yw cysylltu â dehonglydd o fewn **un diwrnod gwaith** i wneud y trefniadau.

Os yw eich cyfweliad neu'ch galwad ffôn yn achos brys, fel arfer gallwn drefnu gwasanaeth dehongli dros y ffôn ar unwaith. Gallwn hefyd eich helpu i gwblhau unrhyw ffurflenni.

## Yr hyn rydym yn disgwyl gennych

Rydym wedi esbonio ein hymrwymiaadau i chi, ond mae hefyd pethau rydym yn ei ddisgwyl yn gyfnewid.

### Ymddygiad rhesymol

Gallwch helpu i wneud y gwasanaeth Canolfan Byd Gwaith yn bleserus drwy:

- drin ein staff â pharch, a
- bod yn ystyriol a chwrtais.

### Rhoi gwybodaeth i ni a bod yn brydlon

Gallwch hefyd helpu drwy:

- roi gwybodaeth gyflawn a chywir
- rhoi mwy o wybodaeth os bydd gofyn i chi wneud hynny
- bod yn brydlon ar gyfer apwyntiadau, a
- sicrhau eich bod ar gael i gymryd galwadau ffôn ar amseroedd rydym wedi cytuno arnynt.

### Rhoi gwybod i ni pan fydd rhwybeth yn newid

Pan gewch fudd-daliadau a bod eich amgylchiadau'n newid, mae'n rhaid i chi rhoi gwybod i ni ar unwaith. Er enghraifft:

- yn symud tŷ (neu os bydd pobl eraill yn symud i mewn i'ch tŷ neu'n gadael)
- yn newid y cyfrif rydym yn talu budd-daliadau i mewn iddo
- yn dechrau gweithio neu'n newid nifer yr oriau rydych yn eu gweithio

- yn mynd yn sâl neu'n mynd i'r ysbyty, neu,
- yn cael mwy neu lai o fudd-daliadau eraill.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am newid, gwnewch hynny beth bynnag. Os na fyddwch yn gwneud, gallech golli allan ar arian y dylech ei gael. Neu, gallech gael gormod o arian, a bydd angen i chi ei dalu'n ôl.

## **Dywedwch eich barn wrthym**

Yma yn y Ganolfan Byd Gwaith rydym yn anelu at ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel bob amser.

Rydym yn croesawu eich holl sylwadau, cwynion neu awgrymiadau ar gyfer pethau y gallwn eu gwella. Bydd eich adborth yn ein helpu i edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn ei wneud yn well.

## **Pan aiff pethau'n iawn**

Os ydych yn teimlo ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, dywedwch wrthym. Bydd gwybod ein bod wedi gwneud rhywbeth yn iawn i chi yn ein helpu i'w wneud yn iawn i eraill hefyd.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella ein gwasanaethau. Os oes gennych awgrym a all ein helpu i wneud hyn, rhowch wybod i ni. Byddwn yn ymateb i'ch sylwadau o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn.

## Sut i roi eich sylwadau i ni

Gallwch ein ffonio neu ysgrifennu atom gyda'ch sylwadau.

Gallwch gael ein manylion cyswllt yn [www.direct.gov.uk/cy](http://www.direct.gov.uk/cy) neu edrych yn eich llyfr ffôn lleol. Os hoffech wneud sylw drwy ganolfan gyswllt neu ganolfan trafod budd-daliadau, dylai'r rhif ffôn fod ar unrhyw ddogfennau yr ydych wedi'u derbyn ganddynt.

## Pan aiff pethau o'i le

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn anghywir, neu nad ydym yn delio â chi yn y ffordd gywir, rhowch wybod i ni.

Po gynharaf y byddwch yn dweud wrthym, y cynharaf y byddwn yn gallu mynd i'r afael â'r mater.

Efallai y byddai'n well gennych siarad â rhywun yn y swyddfa rydych wedi bod yn delio â hi. Bydd galwad ffôn fel arfer yn unioni materion a gallwn eich ffonio yn ôl.

Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fyddwch am wneud cwyn ffurfiol. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar dudalen 14.

Mewn ambell achos, mae gennych yr hawl ffurfiol i apelio yn erbyn penderfyniadau rydym wedi'u gwneud. Byddwn yn dweud wrthyh bob amser pan fydd hyn yn berthnasol, a sut i apelio, ac unrhyw gyfyngiadau amser sy'n briodol.

## Cwyno

Os byddwch yn gwneud cwyn byddwn yn sicrhau bod staff sy'n meddu ar y profiad, y wybodaeth a'r awdurdod priodol yn ymchwilio i'r mater. Byddwn yn:

- delio â chi mewn ffordd ddymunol a phroffesiynol
- trin eich cwyn o ddifrif
- cadw eich cwyn yn gyfrinachol, ac
- ni fyddwn yn eich trin yn wahanol i gwsmeriaid eraill oherwydd eich bod wedi gwneud cwyn.

## Ffynonellau annibynnol o gymorth

Os hoffech gael cymorth gan ffynhonnell annibynnol wrth i chi ymwneud â ni neu pan fyddwch yn gwneud cwyn, gallech ofyn i un o'r canlynol:

- canolfan cyngori leol fel Canolfan Cyngor ar Bopeth, neu
- eich Aelod Seneddol (AS).

Dylai eich ymgynghorydd rhoi gwybod i chi am ffynonellau annibynnol o gymorth lleol.

## Sut i wneud cwyn ffurfiol

### Cam 1

Cysylltwch â'r person y buoch yn delio â hwy. Dywedwch wrthynt hwy, neu eu rheolwr, am eich cwyn.

Byddwn yn anfon ateb llawn atoch o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn eich cwyn. Gobeithiwn y byddwch yn hapus â'r ateb hwnnw.

### Cam 2

Os na chaiff eich cwyn ei datrys yng ngham 1, cysylltwch â Rheolwr Dosbarth lle rydych yn byw. Gall unrhyw un yn y Ganolfan Gwaith, canolfan gyswllt neu ganolfan trafod budd-daliadau ddweud wrthy ch pwy yw'r Rheolwr Dosbarth.

Bydd y rheolwr hwn yn sicrhau bod eich cwyn yn cael ei hadolygu, a byddant yn eich hysbysu am yr hyn a gaiff ei wneud. Ein nod yw ateb eich cwynion yn ystod y cam hwn o fewn 10 niwrnod gwaith o'u cael.

### Cam 3

Byddwn yn datrys y rhan fwyaf o gwynion yng nghamau 1 neu 2. Fodd bynnag, os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb a gewch yng ngham 2, gallwch ysgrifennu at ein Prif Weithredwr:

Jobcentre Plus Chief Executive  
6th Floor, Caxton House  
Tothill Street. London SW1H 9NA

Ni all y Prif Weithredwr ateb pob llythyr yn bersonol ond bydd yn sicrhau bod eich cwyn yn cael ei hadolygu'n llawn ac yn deg. Bydd yn gofyn i'r person mwyaf priodol ymchwilio i'r gŵyn.

Os byddwch yn ysgrifennu at y Prif Weithredwr yn hytrach na'r swyddfa sy'n delio â chi, rydym yn anelu at ateb o fewn 15 diwrnod gwaith.

Os na allwn ateb o fewn yr amser hwn, byddwn yn esbonio pam i chi ac yn:

- dweud wrthyich pwy sy'n delio â'ch cwyn
- dweud pryd y gallwch ddisgwyl ateb llawn, ac
- esbonio'r hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn.

### Os ydym wedi gwneud camgymeriad

Os ydym wedi gwneud camgymeriad byddwn yn:

- ymddiheuro
- unioni'r camgymeriad cyn gynted â phosibl
- egluro beth aeth o'i le a pham, a
- dysgu oddi wrth ein profiad.

## **Archwilydd Achosion Annibynnol**

Ar ôl i ni ymateb i gŵyn i'r Prif Weithredwr, efallai y byddwch yn dal o'r farn nad ydym wedi delio â'ch cwyn yn briodol. Os yw hyn yn wir, gallwch ysgrifennu at yr Archwilydd Achosion Annibynnol.

Mae'r Archwilydd yn annibynnol o'r Ganolfan Byd Gwaith, ac mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Gallant ystyried cwynion am ein gwasanaeth, ond nid am faterion o gyfraith neu bolisi llywodraeth.

Gall yr Archwilydd Achosion Annibynnol helpu ar ôl i chi gael ateb terfynol y Prif Weithredwr yn unig. Mae'n rhaid i chi gysylltu â hwy o fewn chwe mis o gael yr ateb.

Peidiwch â chysylltu â hwy cyn neu'n hytrach na dilyn camau 1 i 3.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Independent Case Examiner  
PO Box 155. Chester CH99 9SA.

Ffôn: 0845 606 0777

Gwefan: [www.ind-case-exam.org.uk](http://www.ind-case-exam.org.uk)

## **Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd**

Os byddwch yn dal i deimlo nad yw eich cwyn wedi'i datrys, mae'n bosibl y gall eich Aelod Seneddol gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.

Mae'r Ombwdsmon yn hollol annibynnol o'r Ganolfan Byd Gwaith a'r llywodraeth. Mae'r gwasanaeth am ddim.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â:

The Parliamentary and Health Service  
Ombudsman  
Millbank Tower, Millbank  
London SW1P 4QP.

Ffôn: 0345 015 4033

Gwefan: [www.ombudsman.org.uk](http://www.ombudsman.org.uk)

## Taliadau arbennig

Rydym yn gweithredu cynllun taliad arbennig dewisol. Ei nod yw helpu pobl yn ôl i'r sefyllfa ariannol y byddent wedi bod ynnddi oni bai am ein camgymeriad.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y canllaw 'Financial redress for injustice resulting from maladministration'. Gallwch weld copi o'r canllaw hwn yn eich Canolfan Gwaith neu ar y rhyngwrwyd yn [www.dwp.gov.uk/cymraeg](http://www.dwp.gov.uk/cymraeg)

## Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT fod yn fwy na 6c y funud gyda thâl o 10c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau **03** o linellau daear BT fod yn fwy na 6c y funud gyda thâl o 10c ar gyfer gwneud yr alwad. Fodd bynnag, mae galwadau i rhifau 03 fel arfer yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gynllun galwadau sydd gennych, felly gofynnwch i ddarparwr eich gwasanaeth os cewch unrhyw gostau gyda'r galwadau hyn.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Gallwch ofyn i ni eich ffonio'n ôl os byddwch yn pryderu am gost yr alwad.

## Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn testun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Ebrill 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

[www.direct.gov.uk/cy](http://www.direct.gov.uk/cy)

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,  
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84947-085-8

**DWP1018W** | f1.1 (Ebrill 2010) | v1.1 (April 2010)

# Ffurflen sylwadau

Os nad ydych eisiau ateb, nid oes angen i chi roi unrhyw fanylion personol i ni.

## Eich manylion

Enw:

---

Cyfeiriad:

---

---

---

Cod post:

---

Rhif Yswiriant Gwladol:

---

Dyddiad geni:

---

## Sut yr hoffech i ni ateb?

Llythyr    Ffôn    E-bost    Ffacs    Peidio ag ateb

Rhowch eich cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost neu'ch rhif ffacs er mwyn i ni ateb yn y dull o'ch dewis.

## Gofynion arbennig

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig y dylem eu hystyried wrth ddelio â chi.

---

---

## Eich sylw

A ydych am roi:

canmoliaeth?     awgrym?     cwyn?

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch isod.  
(Gallwch barhau ar dudalen arall os dymunwch.)

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

A fyddai gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau grŵp neu arolygon am ein gwasanaeth yn y dyfodol?

Byddai     Na fyddai

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i'ch Canolfan Gwaith leol.

**Diolch i chi am gysylltu â ni.**

Dyddiad a dderbyniwyd: \_\_\_\_\_